# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog*
# *Harbour Consultative Committee*

***16 Mawrth / March 2011***

***Adroddiad yr Uned Forwrol - Maritime Unit Report***

***1 – Ffioedd a Thaliadau***

***1.1*** Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol nesaf, 2011/12, wedi'u hanfon i'r Swyddogion Statudol ac i'r Arweinydd Portffolio i'w cymeradwyo. Rhagwelir y bydd yr Arweinydd Portffolio yn cadarnhau'r ffioedd cyn diwedd Mawrth 2011. Er mwyn sicrhau bod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r newidiadau, mae'r Uned Forwrol wedi anfon copi o'r ffioedd a'r taliadau drafft i'r holl gleientiaid gan bwysleisio fod y ffioedd yn amodol i'w cadarnhau a'u cymeradwyo yn derfynol.

***1.2*** Mae copi o ffioedd a thaliadau harbyrau Porthmadog a Phwllheli yn atodol ac fe fydd yr Aelodau'n nodi yr argymhellir fod ffioedd a thaliadau'r harbwr i bob llestr sy'n angori o fewn awdurdod Porthmadog yn amrywio a bod strwythur codi tâl newydd wedi'i gyflwyno. Ar y cyfan, bydd cynnydd o **1%** yn y ffioedd. Bydd y cynnydd mewn TAW i **20.0%** o'r 4ydd Ionawr 2011 yn anffodus yn achosi cynnydd ychwanegol mewn costau i'r holl ddefnyddwyr ond ni fydd hyn yn cyfrannu at incwm cyffredinol yr harbwr.

***1.3*** Rhagwelir fod y cynnydd mewn chwyddiant i harbwr Porthmadog ar gyfer 2011/12 yn **0.35%** sydd wedi'i seilio ar nifer o ffactorau sy'n codi a gostwng uwchben lefel chwyddiant (Trydan ac ati) ac a seiliwyd ar gynnydd mewn costau staff o **1%** er na fydd unrhyw gynnydd yng nghyflog staff. Ar y cyfan, ni fydd cynnydd yn y targed incwm am 2011/12 ac felly cyfanswm targed incwm harbwr Porthmadog yn y flwyddyn ariannol nesaf fydd **£75,390**. Rhagwelir y bydd y newidiadau i'r strwythur prisio a'r cynnydd bychan mewn ffioedd angori ar lefel sydd ychydig yn uwch na chwyddiant yn pontio'r swm sy'n cynyddu'n barhaus wrth gymharu'r targed incwm gyda'r incwm gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn.

***1.4*** O ran harbwr Pwllheli, rhagwelir y bydd y raddfa chwyddiant yn negatif, **-0.13%** a Hafan Pwllheli yn **1.90%.** Y targed incwm cyffredinol ar gyfer ardal Harbwr Allanol Pwllheli yn 2011/12 fydd **£118,130**, a'r targed incwm cyffredinol ar gyfer Hafan yn **£1,592,300.**

***1.5*** Mae'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol hefyd wedi'u cynyddu am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau i Lansio ac i gofrestru Cychod Pŵer yn atodol.

***1.6*** Y cynnydd yn y targed incwm cyffredinol i'r Uned Forwrol am 2011/12 yw **£57,330** sy'n cymharu gyda tharged wedi ei gynyddu o **£9,070** yn 2010/11 a **£51,020** yn 2009/10. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i **£2,219,360** yn 2011/12.

## *2 -* ***Cyllidebau***

***2.1*** Mae'r sefyllfa ariannol yn harbwr Porthmadog a harbwr Pwllheli ynghyd â chyllideb gyffredinol traethau sy'n cynnwys Morfa Bychan o drydydd chwarter y flwyddyn ariannol hon hyd at 31ain Rhagfyr 2010 yn atodol. Bydd yr aelodau yn nodi bod y targed incwm sy'n ymwneud â harbwr Porthmadog am 2010/11yn **£75,190** ac mai'r cyfanswm incwm a gynhyrchwyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2010 yw **£71,281**. Mae hyn o'i gymharu â chasglu **£74,856** mewn incwm am yr un cyfnod y llynedd. Ni ragwelir y gellir cynhyrchu incwm sylweddol yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, felly, ni ragwelir y gellir cyflawni'r taged incwm y flwyddyn ariannol hon. Y diffyg yn yr incwm a ragwelir ar gyfer harbwr Porthmadog hyd at 31 Mawrth 2010 yw **£3,900.**

Rhagwelir y bydd gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth ac mae'r dangosyddion ariannol allweddol ar gyfer y chwarter olaf yn rhagweld tanwariant o **£1,500** yng nghyllideb yr harbwr erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd y cyfanswm gwariant cyffredinol wedi cymryd cyfanswm y targed incwm i ystyriaeth. Mae'r fath orwariant a diffyg yn yr adenillion yn rhoi baich ariannol annerbyniol ar yr Awdurdod.

*2.2* O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r gofyn i adnabod rhagor o arbedion, bydd 2010/11 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn arbennig i'r harbyrau sy'n methu â chyfarfod y targedau incwm a'r targedau gwariant. Pwysleisir y bydd yn rhaid goresgyn gorwariant a'r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio'r gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a'r arbedion sydd angen eu hadnabod yn y dyfodol.

## *3.* ***Mordwyo- Angorfeydd***

*3.1* Er bod y mwyafrif o'r cymhorthion mordwyo yn arwain at harbwr Porthmadog wedi aros yn eu lle yn ystod gaeaf 2010/11, roedd un cymhorthydd mordwyo, sef rhif 9, wedi symud i'r safle yn ystod y llanw eithriadol o uchel a gafwyd yn ddiweddar. Ymddengys fod newidiadau eraill yn cymryd lle yn agos i leoliad rhif 5 ac mae'r sianel yn yr ardal hon wedi lledu'n sylweddol ac felly wedi lleihau dyfnder y sianel yn sylweddol. Mae'r Uned Forwrol wedi cynghori morwyr i fod yn ofalus wrth fordwyo yn yr ardal hon.

*3.2* Mae'n galonogol adrodd fod y llusernau mordwyo sy'n rhoi arweiniad ychwanegol i forwyr yn ystod misoedd y gaeaf wedi parhau i weithio ac mae hyn yn arbennig o galonogol o gofio mai'r bwriad gwreiddiol oedd iddynt gael eu defnyddio ar sail dymhorol. Mae'r llusernau ychwanegol a ymgorfforwyd i'r system yn ystod 2010 wedi darparu arweiniad ychwanegol i forwyr. Ni ragwelir fod mwy o sgôp i wella ar agwedd weledol y cymorthion mordwyo ym Mhorthmadog.

Rhaid pwysleisio na fydd yr Uned Forwrol yn medru gwarantu y bydd yr holl lusernau yn gweithio drwy gydol y gaeaf gan fod ailosod a gwasanaethu llusernau yn dibynnu ar y tywydd.

Rhagwelir y bydd pob Cymhorthydd Mordwyo yn harbwr Porthmadog wedi derbyn sylw ac yn ei safle cywir cyn y Pasg.

*3.3* Ar hyn o bryd, mae'r holl angorfeydd yn yr harbwr yn cael eu harchwilio a'u cynnal gan gontractwr wedi'i gymhwyso'n briodol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn cadarnhau fod y cychod wedi'u rhwymo'n ddiogel yn yr harbwr yn ystod y tymor hwylio. Gwahoddodd Cyngor Gwynedd gontractwyr cymwys i gyflwyno dyfynbrisiau am y gwaith a'r pris isaf am y gwaith cyfunol yn harbyrau Porthmadog a Phwllheli oedd **£5,045**. Dyma oedd y gost yn 2010 hefyd, sy'n galonogol. Nid yw'r ffi archwilio yn cynnwys cost y gadwyn a'r siaclau.

Bydd adroddiad cynhwysfawr ynghylch cyflwr yr angorfeydd ac ar y gwaith sydd i'w gwblhau ar bob un o'r angorfeydd yn cael ei ddosbarthu yn y cyfarfod gan y Swyddog Morwrol - Harbyrau a'r Harbwr Feistr.

***3.4*** Cost y gadwyn angori a'r siaclau sydd i'w defnyddio ar gyfer cynnal a chadw'r angorfeydd a'r cymhorthion mordwyo o fewn harbwr Porthmadog yn ystod gwanwyn 2010 yw £2,100. Mae hyn ychydig yn uwch na'r hyn oedd ei angen yn 2010 (£1,650 a £4,000 yn 2009) ac yn cymharu'n dda â'r gost gyfartalog dros y blynyddoedd diwethaf.

***3.5*** Bydd yr holl angorfeydd a leolir ar flaendraeth Borth y Gest yn cael eu harchwilio gan yr Harbwr Feistr ac fel yn 2010, adroddir na fydd unrhyw un o'r angorfeydd a leolir ar y blaendraeth angen ei symud cyn dechrau'r tymor hwylio.

## *4 -* ***Staff***

***4.1*** Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr yn harbyrau Porthmadog a Phwllheli am y tymor nesaf a bydd y swydd yn dechrau ar 7 Ebrill gan ymestyn hyd 30 Medi 2011. Hefyd, mae swydd Cymhorthydd Harbwr Abermaw wedi ei hysbysebu a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cael ei gyflogi o 7 Ebrill hyd 30 Medi.

Bydd nifer o swyddogion traeth yn cael eu cyflogi yn ystod tymor yr haf i reoli Morfa Bychan a byddant yn dechrau ar eu dyletswyddau ar 7 Ebrill. Bydd adnoddau ychwanegol ar y traeth yn ystod cyfnod prysuraf tymor yr haf.

## *5* ***Datblygiadau'r Clwb Hwylio***

***5.1*** Cafwyd trafodaeth fanwl yng nghyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ym mis Medi 2010 ar gais Clwb Hwylio Madog a gyflwynwyd i Gyngor Gwynedd ynghylch ymestyn y cyfleuster pontŵn ar gyfer angorfeydd yn harbwr Porthmadog. Roedd Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog yn cefnogi'r prosiect mewn egwyddor ond yn amodol ar dderbyn sicrhad gan Glwb Hwylio Madog na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar yr hyn a ganlyn :-

- hydrodynameg y llanw yn ardal y pontŵn
- na fyddai'r drwydded gytundebol sy'n caniatáu i longau lwytho a dadlwytho cargo yn yr harbwr mewnol yn cael ei chyfyngu
- fod y datblygwyr yn gyfrifol am y costau'n ymwneud â symud badau pleser a'r system pontŵn

- hawl mynediad i gerddwyr i'r rhan o'r datblygiad ble ceir y pontŵn ymweld

- nad yw'n rhwystro'r llithrfa na mynediad i'r ardal hon

- Ni fydd estyniad y pontŵn yn effeithio ar osod llestrau mewn angorfeydd cyfagos. Pe byddai'r datblygiad yn effeithio ar angorfeydd cyfagos.

- byddai angen i'r Clwb Hwylio sicrhau y byddai'n talu am weithredu unrhyw fesurau i gywiro hyn.

5.3 Roedd yr Uned Forwrol yn rhan o'r ymgynghori a chyflwynwyd sylwadau i Dŷ'r Drindod. Cyflwynwyd sylwadau hefyd i Uned Caniatadau Morwrol Llywodraeth Cynulliad Cymru. O ran Cymhorthion Mordwyo, roedd yr Uned Forwrol yn argymell i Dŷ'r Drindod y dylid gosod goleuadau sefydlog 2 F.R.(vert) ar bob pen i'r datblygiad, sef ochr y môr ac ochr y tir. Cymeradwywyd y goleuadau mordwyo sefydlog gan Dŷ'r Drindod a bydd Clwb Hwylio Madog yn eu cynnal a chadw.

***5.3*** Gan gofio fod Pwyllgor yr Harbwr wedi cytuno i'r egwyddor o ymestyn y cyfleuster, cyflwynwyd adroddiad yn argymell cymeradwyo'r prosiect i Bwyllgor Ardal Dwyfor ym mis Rhagfyr 2010. Yn sgil y tywydd garw, gohiriwyd y cyfarfod hwn hyd fis Ionawr 2011. Atodir copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor Ardal Dwyfor gyda'r adroddiad hwn. Penderfynodd Pwyllgor Ardal Dwyfor ganiatáu argymhellion Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog a bellach mae'r datblygiad wedi'i roi yn ei le yn yr harbwr.